Cyd-gyngor Cymwysterau

Arholiadau TAG

Cofrestru, Agregu ac Ardystio

Gweithdrefnau a Rheolau

(gan gynnwys trefniadau i ymgeiswyr TAG sy'n trosglwyddo rhwng manylebau neu gyrff dyfarnu ran o'r ffordd trwy gyrsiau safon Uwch)

Yn weithredol o 1 Medi 2011 i 31 Awst 2012

Cynhyrchwyd ar ran:

AQA

edexcel
advancing learning, changing lives

OCR
RECOGNISING ACHIEVEMENT

cea
Rewarding Learning

CBAC
WJEC

© 2011

Cynnwys

		Tudalen
Rhagarweiniad		1
1.	Cofrestru	2
2.	Derbyn Canlyniadau	3
3.	Ailsefyll	4
4.	Cyfnewid - yr opsiynau a sut i weithredu	5
5.	Cyfnewid neu beidio?	7
6.	Ymholiadau am ganlyniadau a dychwelyd sgriptiau	8
7	Trefniadau i ymgeiswyr TAG UG sy'n trosglwyddo rhwng manylebau neu gyrff dyfarnu ran o'r ffordd trwy gwrs TAG safon Uwch (wedi cwblhau ac ardystio TAG UG)	9

Atodiadau

1.	Dyddiadau Allweddol yn 2011/2012	13
2.	Graddfeydd Marciau Unffurf	14
3.	Enghreifftiau o agregu ac ardystio TAG	16
4.	Manylion cymwysterau TAG Cymhwysol a TAG Mathemateg lle mae'n bosibl trosglwyddo rhwng manylebau, neu ddim	18
5.	Manylion cymwysterau TAG cyfredol eraill lle mae'n bosibl trosglwyddo rhwng manylebau, neu ddim	22
6.	Gwneud cais i drosglwyddo dyfarniad TAG UG rhwng manylebau a/neu gyrff dyfarnu (enghraifft 1)	27
7.	Gwneud cais i drosglwyddo dyfarniad TAG UG rhwng manylebau a/neu gyrff dyfarnu (enghraifft 2)	28

Rhagarweiniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi rheolau a phrif ofynion gweinyddol y cymwysterau TAG (Tystysgrif Addysg Gyffredinol) gan gynnwys y TAG mewn pynciau cymhwysol.

Nid yw'n ymdrin â rheolau a gofynion gweinyddol TGAU, Tystysgrifau Lefel Mynediad, cymwysterau Sgiliau Gweithredol, unedau Prif Ddysgu o fewn cymwysterau Diploma a chymwysterau Project.

Cynlluniwyd y llyfryn hwn i'w ddefnyddio gan yr unigolion yn yr ysgolion a'r colegau sy'n gyfrifol am weinyddu'r arholiadau TAG. Y bwriad yw egluro a darparu sylwebaeth ar y prif weithgareddau a'r termau dan sylw, ac i gynnig arweiniad ar weithredu'r rheolau i gymwysterau TAG.

O ran y **TAG mewn pynciau cymhwysol**, bydd myfyrwyr yn gyffredinol yn sefyll tair uned TAG Cymhwysol Uwch Gyfrannol Gradd Unigol, sy'n gymhwyster annibynnol a gellir ei ddyfarnu ar wahân. Gallant ddewis cymryd tair uned arall i gwblhau'r cymhwyster TAG Cymhwysol Uwch Gradd Unigol llawn. Mae cymwysterau Dwyradd ar gael hefyd. Mae cymhwyster UG dwyradd yn cynnwys chwe uned ac mae cymhwyster safon Uwch dwyradd yn cynnwys deuddeg uned. Ceir dyfarniad naw uned hefyd: TAG Uwch gyda TAG Uwch Gyfrannol (Ychwanegol).

Yn achos manylebau eraill TAG, bydd myfyrwyr yn gyffredinol yn sefyll dwy uned am gymhwyster TAG Uwch Gyfrannol (UG), sy'n gymhwyster annibynnol a gellir ei ddyfarnu ar wahân. Gall myfyrwyr ddewis cymryd dwy uned bellach i gwblhau'r cymhwyster TAG Uwch (safon Uwch) llawn.

Eithriadau i'r rheol hon yw Mathemateg, Mathemateg Bellach, Mathemateg Bur, Ystadegau, Bioleg, Boleg Ddynol, Cemeg, Ffiseg, Electroneg, Daeareg, Cymraeg Iaith Gyntaf, Cymraeg Ail Iaith a Cherddoriaeth sy'n cynnwys cymwysterau UG tair uned a safon Uwch chwe uned. Yn ogystal, mae'r ieithoedd llai arferedig (Arabeg, Bengali, Hebraeg Feiblaidd, Iseldireg, Gujarati, Japanaeg, Groeg Fodern, Hebraeg Fodern, Panjabi, Perseg, Pwyleg, Portiwgaleg a Thwrceg) yn cynnwys cymwysterau UG un uned a safon Uwch dwy uned.

Cymhwyster tair uned yw Tsieinëeg (dwy uned UG ac un U2) a bydd 200 o farciau unffurf amdano.

Mae rhestr o ddyddiadau'r prif weithgareddau i'w chael yn Atodiad 1, tudalen 12, er rhwyddineb cyfeirio.

1. Cofrestru

Mater Allweddol: Gall cofrestriadau arwain <u>naill ai</u> at ganlyniadau uned <u>neu</u> at ganlyniadau yn y cymhwyster.

(i) Cofrestru am unedau unigol

Mae angen cofrestru am bob uned sydd i'w chynnig mewn unrhyw gyfres arholiadau benodol. Mae'n angenrheidiol gwneud hyn er mwyn i bob ymgeisydd dderbyn y papur(au) arholiad cywir a'r canlyniad(au) cywir ar ddiwedd y broses. Gweler **Atodiad 1, tudalen 12,** am y dyddiadau cofrestru terfynol.

Dylai ysgol neu goleg y myfyriwr gofrestru am yr uned(au) y paratowyd y myfyriwr amdani / amdanynt. Gellir cymryd unedau mewn unrhyw drefn.

Pan fydd cofrestriadau'n cael eu gwneud am unedau, nid yw'n ofynnol i'r ymgeisydd ddatgan lefel na theitl y cymhwyster y mae ef/hi yn bwriadu ei gwblhau. Mae rhai unedau, er enghraifft yn y TAG Mathemateg, yn gyffredin i fwy nag un teitl.

(ii) Cofrestru am y Cymhwyster ('cyfnewid' neu agregu)

Unwaith bydd y myfyriwr wedi ennill neu wedi cynnig am y gyfres briodol o unedau, gellir wedyn cofrestru am ddyfarniad y cymhwyster. Gelwir hyn yn 'cyfnewid' neu agregu, a dyma sy'n dangos i'r corff dyfarnu bod y myfyriwr yn dymuno cwblhau'r cymhwyster a chael ei ardystio.

Nid yw cyfnewid neu agregu'n awtomatig. Gellir ond gwneud cais amdano pan fydd y myfyriwr wedi cynnig am y set briodol o unedau ar gyfer y cymhwyster o'i (d)dewis ac wedi'i hennill.

Nid yw gwneud cais i gyfnewid neu agregu yn dynodi cofrestriad am unrhyw uned neu gyfuniad arbennig o unedau. **Rhaid cofrestru'n benodol o hyd am unrhyw unedau y mae'r myfyriwr yn dymuno cael ei asesu ynddynt, gyda chofrestriad ar wahân am y cymhwyster cyffredinol.**

Gwneir cais i gyfnewid neu agregu fel arfer ar yr un adeg â'r cofrestriad am unedau terfynol y myfyriwr. Gellir gwneud cais amdano hefyd yn y cyfnod yn syth ar ôl derbyn y canlyniadau uned. Gall ymgeiswyr sydd â digon o ganlyniadau uned i ennill dyfarniad ond sydd heb gyfnewid neu agregu wneud hynny'n adolygol trwy eu canolfan. Gweler **Atodiad 1, Tudalen 12,** am y dyddiadau cyflwyno. Rhaid i'r ganolfan gyflwyno'r cais i'r corff dyfarnu perthnasol erbyn dyddiad cau cyhoeddedig y gyfres dan sylw. Bydd pob corff dyfarnu'n cyhoeddi ei ganllawiau gweinyddol ei hyn, a fydd yn rhoi manylion sut i gyflwyno ceisiadau ac unrhyw dâl a godir am y gwasanaeth hwn.

D.S. Mae'r Adran Addysg erbyn hyn yn disgwyl i bob ysgol a choleg a gynhelir yn Lloegr 'gyfnewid' neu 'agregu' unedau UG myfyrwyr ar ddiwedd cwrs UG blwyddyn (neu hanner ffordd trwy gwrs safon Uwch dwy flynedd). Gellir cael mwy o wybodaeth o http://www.dcsf.gov.uk/14-19/index.cfm?go=site.home&sid=3&pid=233&lid=698&ctype=Text&ptype=Single

2. Derbyn Canlyniadau

Mater Allweddol: Adroddir canlyniadau uned fel marciau unffurf a graddau uned; adroddir canlyniadau cymhwyster fel graddau.

Yn yr holl unedau TAG (gan gynnwys yr unedau TAG Cymhwysol), bydd y ffiniau gradd yn cael eu pennu mewn cyfarfodydd dyfarnu gan ddefnyddio'r marciau crai am yr uned. Bydd y ffiniau gradd marciau crai hyn wedyn yn cael eu trosi ar raddfa marciau unffurf (GMU) sydd â ffiniau gradd penodedig.

Adroddir canlyniadau uned myfyriwr fel marciau unffurf. Adroddir yr holl unedau TAG Cymhwysol ar raddfa 100 pwynt fel arfer. Mae'r marc unffurf mwyaf am unedau TAG eraill yn dibynnu ar bwysiad yr uned, a bydd hyn fel arfer yn amrywio rhwng 60 a 140.

Mae'r marc unffurf yn caniatáu cyfrifo cywerthydd gradd i bob uned, y gellir hefyd ei ddangos ar y slip canlyniadau. Mae graddfeydd marciau unffurf yn cael eu rhoi yn **Atodiad 2, tudalen 13.**

Bydd slipiau canlyniadau'n cynnwys y canlynol, o leiaf, ar gyfer pob uned: teitl yr uned, marc GMU yr ymgeisydd am yr uned a'r gyfres arholiadau y cymerwyd yr uned ynddi. Bydd gwybodaeth yn cael ei darparu hefyd sy'n galluogi hafalu marciau GMU i raddau TAG.

Os yw myfyriwr wedi gwneud cais i gyfnewid neu agregu, yna bydd canlyniad cymhwyster hefyd yn cael ei gyhoeddi. Adroddir y canlyniad fel gradd sy'n cael ei gyfrifo trwy adio marciau unffurf gorau pob uned sydd ei hangen.

Bydd myfyrwyr yn ennill dyfarniad Gradd A* os ydynt yn ennill Gradd A am y safon Uwch lawn (h.y. o leiaf 160, 320 neu 480 marc unffurf yn y safon Uwch 2, 4 neu 6 uned yn eu trefn) **a mwy na 90% o'r marciau unffurf sydd ar gael o'u hunedau U2** (h.y. 90, 180 neu 270 am unedau U2 y safon Uwch 2, 4 neu 6 uned yn eu trefn). Mae rheolau arbennig yn berthnasol i fanylebau TAG Mathemateg a TAG Cymhwysol – gweler **Atodiad 2, tudalen 13**.

Bydd tystysgrifau pob pwnc yn dangos, o leiaf, deitl y pwnc, y cymhwyster, gradd y pwnc a'r gyfres arholiadau y gwnaed y dyfarniad ynddi.

3. Ailsefyll

Mater Allweddol: Gellir ailsefyll unrhyw uned pa un ai bydd y cymhwyster yn cael ei gyfnewid ai peidio.

Os bydd myfyriwr wedi hawlio ardystiad UG, gall ef/hi ailsefyll un neu fwy o unedau UG o hyd yn ogystal â'r unedau U2 cyn cyfnewid am ddyfarniad safon Uwch.

Mae Ffigur 1 yn dangos y posibiliadau ar gyfer myfyriwr a gychwynnodd gwrs TAG dwy flynedd ym mis Medi 2010.

Ffigur 1 – ailsefyll ac agregu (o fis Ionawr 2010)

Ionawr 2011	Mehefin 2011	Ionawr 2012	Mehefin 2012
Uned 1	Uned 1	Uned 2	Uned 3
	Uned 2	Uned 3	Uned 4
	Dyfarniad UG wedi'i hawlio		Dyfarniad safon Uwch wedi'i hawlio

Mae'r tabl uchod yn rhoi enghraifft o fyfyriwr sy'n cwblhau cymhwyster TAG pedair uned dros bedair cyfres arholiadau.

Mae'r myfyriwr yn cymryd Uned 1 ym mis Ionawr 2011. Ym mis Mehefin 2011 mae'r myfyriwr yn ailsefyll Uned 1 ac yn cofrestru am Uned 2. Mae'r myfyriwr yn hawlio dyfarniad UG ym mis Mehefin 2011, sy'n defnyddio'r sgôr gwell o ddwy sgôr Uned 1.

Mae'r myfyriwr yn ailsefyll Uned 2 ym mis Ionawr 2012, yn ogystal â chofrestru am Uned 3. Ym mis Mehefin 2011 mae'r myfyriwr yn ailsefyll Uned 3, yn ogystal â chymryd Uned 4. Mae'r myfyriwr yn hawlio dyfarniad Safon Uwch ym mis Mehefin 2012.

Pan fydd y dyfarniad safon Uwch yn cael ei hawlio ym mis Mehefin 2012, dim ond y cais gorau ar bob uned fydd yn cael ei ystyried, a bydd y dyfarniad wedi'i lunio fel a ganlyn:

- Uned 1 – y canlyniad gwell o'r ddau gynnig
- Uned 2 – y canlyniad gwell o'r ddau gynnig
- Uned 3 – y canlyniad gwell o'r ddau gynnig
- Uned 4 – Mehefin 2012

Gall y myfyriwr hawlio dyfarniad UG newydd ym mis Ionawr neu fis Mehefin 2012, gan y bydd canlyniadau uned a enillwyd cyn yr ardystiad blaenorol ar gael i'w hail-ddefnyddio. Os bydd myfyriwr yn hawlio dyfarniad UG newydd ym mis Ionawr neu Fehefin 2012, bydd yn cael ei lunio fel a ganlyn:

- Uned 1 – y canlyniad gwell o'r ddau gynnig
- Uned 2 – y canlyniad gwell o'r ddau gynnig

Os nad yw'r myfyriwr yn fodlon â'r dyfarniad safon Uwch a hawliwyd ym mis Mehefin 2012, gall ef/hi ailsefyll un neu fwy o unedau (unedau UG a/neu U2, os ydynt ar gael) a gofyn am ardystiad safon Uwch eto ym mis Ionawr 2013 neu mewn cyfres ddiweddarach.

4. Cyfnewid dyfarniadau – yr opsiynau a sut i weithredu

Mae'r adran hon yn ystyried yr opsiynau sydd ar gael i fyfyriwr sydd naill ai am orffen ei g/chymhwyster **neu** am fynd â'r cymhwyster ymhellach a sut i weithredu.

(i) Opsiynau i'r myfyriwr sy'n bwriadu gorffen y cymhwyster a sut y dylai weithredu

Mae'r wybodaeth hon yn berthnasol i fyfyriwr sydd wedi cwblhau'r unedau am gymhwyster TAG UG neu Uwch ac nad yw'n bwriadu symud ymlaen i ddyfarniad pellach.

- Os yw'r myfyriwr yn fodlon â'i g/radd wedi'i hagregu ac y gwnaed cais i gyfnewid ar adeg cyflwyno'r cofrestriad, nid oes angen gweithredu ymhellach.

- Os na wnaed cais i gyfnewid wrth gofrestru, gellir gwneud cais amdano'n adolygol ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau ac erbyn y dyddiad a gyhoeddwyd i gyflwyno dyfarniadau pwnc hwyr :

  20 Medi 2011 am gyfres arholiadau Mehefin 2011
  17 Ebrill 2012 am gyfres arholiadau Ionawr 2012
  20 Medi 2012 am gyfres arholiadau Mehefin 2012

- Os nad yw myfyriwr yn fodlon â'r radd wedi'i hagregu ac yn dymuno ei gwella, gellir ailsefyll un neu fwy o'r unedau a gofyn am ardystiad eto mewn cyfres arholiadau yn y dyfodol. Lle mae uned yn cynnwys mwy nag un opsiwn, gall yr ymgeisydd gymryd uned opsiynol newydd. Bydd canlyniad gorau pob uned yn cyfrif tuag at y dyfarniad newydd.

(ii) Opsiynau os yw'r myfyriwr yn bwriadu mynd â'r cymhwyster ymhellach a sut y dylai weithredu

Mae'r wybodaeth hon yn berthnasol i fyfyriwr sydd wedi cwblhau unedau cymhwyster TAG UG neu Uwch ac sy'n dymuno mynd â'r cymhwyster hwnnw ymhellach.

- Gall y myfyriwr fynd ymlaen i gymhwyster pellach pa un ai yw wedi cyfnewid neu agregu'r dyfarniad cyntaf ai peidio. Gellir ailsefyll unedau unigol ar ddyddiad yn y dyfodol a fydd yn cyfrif at y cymhwyster pellach.

- Os yw'r myfyriwr yn fodlon â'r radd wedi'i hagregu, ac y gwnaed cais i gyfnewid ar adeg cyflwyno'r cofrestriad, nid oes angen gweithredu ymhellach.

- Os na wnaed cais i gyfnewid ar adeg cyflwyno'r cofrestriad, gellir gwneud cais amdano'n adolygol ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau ac erbyn y dyddiad a gyhoeddwyd i gyflwyno dyfarniadau pwnc hwyr:

  20 Medi 2011 am gyfres arholiadau Mehefin 2011
  17 Ebrill 2012 am gyfres arholiadau Ionawr 2012
  20 Medi 2012 am gyfres arholiadau Mehefin 2012

- Os yw myfyriwr wedi gwneud cais i gyfnewid y canlyniad, gellir gwella'r radd am y cymhwyster hwnnw mewn cyfres arholiadau yn y dyfodol trwy gynnig am a chymryd asesiad un uned gyfrannol o leiaf. Pan fydd mwy nag un opsiwn mewn uned, gall yr ymgeisydd gymryd uned opsiynol newydd. Bydd canlyniad gorau'r ymgeisydd am bob uned yn cyfrif tuag at ddyfarniad newydd.

Mae ffigurau 2a a 2b ar **dudalen 6** yn crynhoi, yn eu trefn, y dulliau gweithredu sydd ar gael i fyfyriwr a wnaeth gais i gyfnewid wrth gofrestru ac i fyfyriwr na wnaeth gais i gyfnewid ar yr adeg honno. Mae pob blwch yn cynrychioli cam o'r broses, ac mae pob saeth yn cynrychioli dewis y gellir ei wneud yn ystod y cam hwnnw.

Ffigur 2a Opsiynau i'r rhai wnaeth gais i gyfnewid - gellir dilyn unrhyw lwybr



Ffigur 2b Opsiynau i'r rhai na wnaeth gais i gyfnewid - gellir dilyn unrhyw lwybr



5. Cyfnewid neu beidio?

Gofynion myfyriwr unigol ddylai fod yn sail i gyfnewid neu beidio. Mae goblygiadau i'r naill ddull gweithredu a'r llall ac amlinellir y rhain isod.

(i) Os yw myfyriwr yn gofyn am gyfnewid y cymhwyster

- Bydd ef/hi yn derbyn gradd a thystysgrif.
- Bydd cyrff dyfarnu'n adrodd gradd y cymhwyster a'r graddau uned cyfrannol cyfatebol i UCAS a rhaid datgan gradd y cymhwyster ar ffurflenni UCAS.
- Gellir ailsefyll unedau unigol o hyd a byddant yn cyfrif tuag at lefel nesaf y dyfarniad.
- Gall y myfyriwr geisio gwella'r radd trwy ailsefyll un neu fwy o unedau (a gwneud cais i gyfnewid eto).

(ii) Os nad yw'r myfyriwr yn cyfnewid y cymhwyster

- Ni chyhoeddir gradd na thystysgrif.
- Gall ef/hi ddewis beth i'w ddweud wrth UCAS - gellir cynnwys gwybodaeth am ganlyniadau yn natganiad personol y myfyriwr neu yn adroddiad y canolwr os dymunir.
- Gellir gwella'r canlyniadau uned unigol.
- Bydd y canlyniadau uned yn aros yn y 'gronfa'. Ystyr hyn yw y gall ef/hi newid ei f/meddwl a chyfnewid yn ddiweddarach i hawlio'r radd y mae ganddo/ganddi hawl iddi. Rhaid cyflwyno'r ceisiadau o fewn y cyfnod penodol yn dilyn cyfres arholiad. Nid oes gofyn sefyll unrhyw unedau pellach.

D.S. Mae'r Adran Addysg erbyn hyn yn disgwyl i bob ysgol a choleg a gynhelir yn Lloegr 'gyfnewid' neu 'agregu' unedau UG myfyrwyr ar ddiwedd cwrs UG blwyddyn (neu hanner ffordd trwy gwrs safon Uwch dwy flynedd). Gellir cael mwy o wybodaeth o http://www.dcsf.gov.uk/14-19/index.cfm?go=site.home&sid=3&pid=233&lid=698&ctype=Text&ptype=Single

6. Ymholiadau am ganlyniadau a dychwelyd sgriptiau

Os oes pryder am ganlyniad uned ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau, gall canolfan wneud cais am ymholiad am ganlyniadau i'r corff dyfarnu perthnasol. Rhoddir dyddiadau cyflwyno ceisiadau yn **Atodiad 1**, **tudalen 12**, a rhoddir manylion llawn yr unedau sydd ar gael yng nghyhoeddiad y CGC *Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau – Gwybodaeth ac arweiniad i ganolfannau.*

Rhaid i ganolfannau gyflwyno ceisiadau am ymholiadau am ganlyniadau o fewn y cyfnod ymholi yn syth ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau. Nid yw'n bosibl gwneud ymholiad am uned a gymerwyd mewn cyfres flaenorol. Mae unrhyw ymholiad a wneir ynghylch gradd gyffredinol cymhwyster wedi'i gyfyngu i wiriad clerigol, gan sicrhau bod agregiad y marciau uned wedi'i gyflawni'n gywir.

Gall canlyniad ymholiad i uned a asesir yn allanol neu uned a asesir yn fewnol arwain at gadarnhau, codi neu ostwng y marc unffurf. Os gwnaed cais i gyfnewid, gellid cadarnhau, codi neu ostwng gradd y cymhwyster. Fodd bynnag, bydd gradd cymhwyster dyfarniadau sy'n cael eu cynnig yn yr un gyfres yn cael eu gwarchod yn achos unedau a asesir yn fewnol. Dylai canolfannau fod yn ymwybodol, er y bydd y radd UG wedi'i gwarchod os bydd uned UG a asesir yn fewnol yn cael ei gostwng o ganlyniad i adolygiad o'r safoni, y bydd y marc is yn cyfrannu at unrhyw ddyfarniad safon Uwch ar ôl hynny.

Gall canolfannau gyflwyno ceisiadau i'r cyrff dyfarnu i gael dychwelyd sgriptiau arholiad gwreiddiol neu i ofyn am lungopi blaenoriaethol o sgript cyn penderfynu cyflwyno cais am ymholiad am ganlyniadau.

7. Trefniadau i ymgeiswyr TAG UG sy'n trosglwyddo rhwng manylebau neu gyrff dyfarnu ran o'r ffordd trwy gwrs TAG safon Uwch (wedi cwblhau ac ardystio TAG UG)

(i) Rhagarweiniad

Gall ymgeiswyr TAG UG sy'n symud i ganolfan arall neu sydd, am resymau eraill, yn gorfod newid eu rhaglen astudio **ran o'r ffordd trwy gwrs TAG safon Uwch** fod yn gymwys i drosglwyddo dyfarniad TAG UG rhwng manylebau a/neu gyrff dyfarnu, **ar yr amod bod gan y manylebau'r un teitlau pwnc, o dan drefniadau a gytunwyd rhwng yr awdurdodau rheoleiddio a'r Cyd-gyngor Cymwysterau.**

Mae trosglwyddo dyfarniad TAG UG rhwng manylebau neu gyrff dyfarnu yn broses eithriadau cofrestru. **Nid yw'n broses awtomatig a rhaid gwneud cais bob amser i'r corff dyfarnu derbyn; y corff dyfarnu y bydd cofrestriadau TAG U2 yn cael eu gwneud ag ef. Rhaid** llenwi'r ffurflen drosglwyddo CGC bob tro.

Bydd y corff dyfarnu yn prosesu'r cais ac yn darparu ymateb ysgrifenedig i'r ganolfan. Ni fydd unrhyw benderfyniad yn cael ei drosglwyddo dros y ffôn.

Rhestrir y trosglwyddiadau TAG sy'n dderbyniol fel arfer yn:

Atodiad 4, tudalen 18, yn achos manylebau TAG Cymhwysol a TAG Mathemateg ac
Atodiad 5, Tudalen 21, yn achos y manylebau TAG cyfredol eraill.

Nid yw trefniadau trosglwyddo credyd TAG UG wedi'u bwriadu i'r rheiny a hawliodd ddyfarniad TAG safon Uwch eisoes. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eithriadol iawn, bydd corff dyfarnu yn ystyried y fath gais. Rhaid i ganolfannau lenwi'r ffurflen drosglwyddo CGC, gyda datganiad wedi'i deipio gan y ganolfan i gefnogi'r cais.

(ii) Ystyriaethau cyffredinol

- Mae trosglwyddiadau rhwng manylebau TAG Cymhwysol yn dilyn yr un rheolau â'r rhai sy'n berthnasol i fanylebau TAG eraill yn gyffredinol. **Ni chaniateir trosglwyddo o fanylebau TAG Cymhwysol i fanylebau TAG ac i'r gwrthwyneb.**

- Caiff pob cais ei ystyried yn unigol, yn seiliedig ar y rheswm dros drosglwyddiad y dyfarniad TAG UG, cydnawsedd y manylebau, a chyflawni gofynion y meini prawf pwnc yn gyffredinol.

- Mae derbyn trosglwyddiad TAG UG yn dibynnu ar y ffaith bod y ganolfan newydd yn sicrhau bod opsiynau TAG U2 yn cael eu dewis yn y fath fodd fel bod unrhyw ailadroddiad o'r cynnwys pwnc yn cael ei osgoi. **Nid yw'n dderbyniol ailadrodd cynnwys pwnc.** Mewn rhai achosion gall fod angen i'r corff dyfarnu newydd amodi bod rhaid dilyn opsiynau neu weithiau gosod arbennig ar ôl y trosglwyddiad er mwyn bodloni'r meini prawf pwnc.

- **Cymwysterau UG cyflawn yn unig y gellir eu trosglwyddo. Rhaid ardystio'r cymhwyster UG cyn y trosglwyddiad**

- Pan fydd ymgeiswyr am ailsefyll unedau UG, dylai canolfannau wneud cais am drosglwyddiad fel arfer ar ddechrau'r flwyddyn academaidd a nodi ar y ffurflen drosglwyddo pa bryd y bwriedir ailsefyll.

- **Pan fydd ymgeiswyr yn ailsefyll unedau UG ar ôl gwneud cais am ardystiad UG mewn cyfres arholiadau flaenorol, rhaid iddynt hawlio eu dyfarniad UG eto, fel bydd y cyfanswm marciau unffurf gorau ar gael i'w drosglwyddo.**

- **Mae angen i ganolfannau ac ymgeiswyr fod yn ymwybodol, os bydd yr uned UG yn cael ei hailsefyll yn yr un gyfres ag y gofynnir am ardystiad safon Uwch, bod hyn yn debygol o ohirio cyhoeddi'r canlyniad safon Uwch**. (Bydd hyn yn digwydd gan na ellir prosesu'r trosglwyddiad tan y bydd y canlyniad ailsefyll uned UG terfynol ar gael.) Gall hyn effeithio ar ymgeiswyr sy'n disgwyl am ganlyniadau safon Uwch er mwyn gallu derbyn y cynnig o le mewn prifysgol.

(iii) Cymhwyster Ymgeiswyr

- Gall yr ymgeiswyr canlynol fod yn gymwys i drosglwyddo cymhwyster rhwng manylebau a/neu gyrff dyfarnu:
    - Ymgeiswyr unigol sy'n trosglwyddo ran o'r ffordd trwy gwrs o un ganolfan i ganolfan arall lle mae manyleb wahanol yn cael ei haddysgu.
    - Ymgeiswyr unigol yn gorfod newid cwrs oherwydd na ellir osgoi gwneud hynny o fewn canolfan sy'n cynnwys symud i fanyleb wahanol.
    - Ymgeiswyr yn dychwelyd ar ôl egwyl (e.e. blwyddyn allan) i gymryd cymhwyster TAG Uwch mewn canolfan arall lle mae manyleb wahanol yn cael ei haddysgu ar yr amod bod hyn o fewn oes y cymhwyster gwreiddiol.
    - Ymgeiswyr yn dychwelyd i ganolfan ar ôl egwyl hir (e.e. oherwydd salwch) sy'n darganfod bod y ganolfan wedi newid y fanyleb sy'n cael ei chynnig yn ystod eu habsenoldeb, ar yr amod bod hyn o fewn oes y cymhwyster gwreiddiol.

- **Bydd trosglwyddiad carfan gyfan ond yn cael ei gytuno mewn amgylchiadau eithriadol iawn**, yn ôl ewyllys y corff dyfarnu derbyn ac ond os yw'r trosglwyddiadau'n cydfynd â gofynion meini prawf y pwnc. Ni fydd trosglwyddiad carfan gyfan yn cael ei gytuno os ydy hynny ar sail y ffaith bod aelod newydd o staff yn ymuno â'r ysgol neu'r coleg sydd wedi cael profiad o addysgu manyleb safon Uwch corff dyfarnu arall. **Gweithredir fel hyn gan nad ystyrir ei bod er lles yr ymgeiswyr i drosglwyddo rhwng manylebau os na ellir osgoi gwneud hynny.**

- **Ni fydd cyrff dyfarnu'r CGC fel rheol yn trosglwyddo credyd o'r manylebau UG Cwricwlwm 2000 (yr hen fanylebau) i fanylebau TAG cyfredol eraill. Ni fydd yn bosibl i'r myfyrwyr gyfuno'r 'hen' unedau TAG UG ac unedau U2 cyfredol i ffurfio cymhwyster safon Uwch llawn. Bydd ond yn bosibl trosglwyddo credyd rhwng manylebau a ysgrifennwyd i'r un meini prawf.**

(iv) Sut i wneud cais

- **Dylid gwneud cais gan ddefnyddio'r ffurflen drosglwyddo CGC erbyn 21ain Hydref yn y flwyddyn academaidd y ceisir ardystiad safon Uwch ynddi**.

- Gellir llwytho fersiwn electronig o'r ffurflen gais trosglwyddo credyd i lawr o wefan y CGC: www.jcq.org.uk/exams_office/entries/ fel y gallwch lenwi'r ffurflen ar-sgrin a'i hargraffu i'w harwyddo a'i hanfon, pe byddai'n well gennych wneud hynny. **Bydd yn rhaid i'r ffurflen gael ei llofnodi gan yr ymgeisydd a'r swyddog arholiadau. Os methir â gwneud hyn, bydd y ffurflen yn cael ei dychwelyd i'r ganolfan.** (Gweler **Atodiadau 6 a 7, Tudalennau 27 a 28,** am enghraifft o ffurflenni wedi'u llenwi). Mae manylion cysylltu'r cyrff dyfarnu wedi'u darparu ar **dudalen 11**.

- Mae'n bwysig cyflwyno cais erbyn 21 Hydref yn y flwyddyn academaidd y ceisir ardystiad safon Uwch ynddi, hyd yn oed os yw'r ymgeisydd yn bwriadu ailsefyll unedau UG yn y fanyleb wreiddiol. Nid yw bob amser yn bosibl cytuno ar drosglwyddiadau arfaethedig ac er lles yr ymgeiswyr a'r canolfannau mae'n bwysig cael gwybod cyn gynted â phosibl os nad yw trosglwyddiad arfaethedig yn dderbyniol.

- Dylai canolfannau sy'n derbyn ymgeiswyr sy'n trosglwyddo cymhwyster UG cyflawn rhwng manylebau a/neu gyrff dyfarnu **bob amser** gadw'r rhif DYU (UCI) a ddyrannwyd gan y ganolfan wreiddiol. Bydd y corff dyfarnu derbyn ond yn gallu prosesu trosglwyddiadau lle mae'r ganolfan dderbyn wedi darparu gwybodaeth lawn a chywir. Mae'r manylion angenrheidiol i'w cael ar ddatganiad canlyniadau rhagarweiniol yr ymgeisydd.

- Bydd y corff dyfarnu derbyn yn gofyn i'r corff dyfarnu gwreiddiol am fanylion y cymhwyster (cymwysterau) UG sy'n cael eu dal gan yr ymgeisydd. **Rhaid bod y** corff dyfarnu derbyn yn fodlon bod yr amodau a nodwyd ar gyfer trosglwyddo cymhwyster UG cyflawn wedi'u cwrdd, bydd y cyfanswm marciau unffurf a enillwyd gan yr ymgeisydd trwy astudio set gyflawn o unedau UG a ardystiwyd yn cael ei ddefnyddio fel credyd tuag at safon Uwch yn y fanyleb a gymerir yn yr U2.

- Nid yw'n bosibl derbyn ystyriaeth arbennig ar sail trosglwyddiad yn unig.

- Ni fydd tystysgrifau a datganiadau rhagarweiniol o ganlyniadau ymgeiswyr safon Uwch yn nodi bod unrhyw drosglwyddiad wedi digwydd.

(v) Manylion Cysylltu'r Cyrff Dyfarnu

AQA Stag Hill House Guildford Surrey GU2 5XJ **Ffôn: 01483 477 886** **Ffacs:** 01483 453 605 neu 01483 303 968 **Ebost**: transferofcredit@aqa.org.uk **Gwefan:** www.aqa.org.uk	**CCEA** 29 Clarendon Road Belffast BT1 3BG **Ffôn:** 02890 261 200 **Ffacs:** 02890 261 234 **Gwefan:** www.ccea.org.uk
Edexcel One90 High Holborn Llundain WC1V 7BH **Ffôn:** 0844 576 0025 **Ffacs:** 020 7190 5606 **Minicom:** 0870 240 3941 **Gwefan:** www.edexcel.com	**OCR** Syndicate Buildings 1 Hills Road Caergrawnt CB1 2EU **Ffôn:** 01223 553 998 **Ffacs:** 01223 553 051 **Gwefan:** www.ocr.org.uk
CBAC Is-adran Cofrestriadau 245 Rhodfa'r Gorllewin Caerdydd CF5 2YX **Ffôn:** 02920 265193 **Ffacs:** 02920 562944 **Gwefan:** www.cbac.co.uk	

Atodiad 1

Dyddiadau allweddol yn 2011/12

Arholiadau TAG	**Ar gyfer cofrestru ac ardystio yn IONAWR 2012**	**Ar gyfer cofrestru ac ardystio ym MEHEFIN 2012**
Dyddiad olaf i wneud cais am drefniadau trosglwyddo credyd	21 Hydref 2011	21 Hydref 2011
Dyddiad olaf i gyflwyno cofrestriadau	21 Hydref 2011	21 Mawrth 2012
Cyflwyno marciau gwaith cwrs TAG, gan gynnwys TAG Cymhwysol	10 Ionawr 2012	15 Mai 2012
Dyddiad yr arholiad cyntaf ar yr amserlen gyffredin	10 Ionawr 2012	14 Mai 2012
Dyddiad yr arholiad terfynol ar yr amserlen gyffredin	2 Chwefror 2012	26 Mehefin 2012
Cyhoeddi canlyniadau i'r canolfannau'n unig	7 Mawrth 2012	15 Awst 2012
Rhyddhau'r canlyniadau i'r ymgeiswyr	8 Mawrth 2012	16 Awst 2012
Dyddiad olaf i wneud cais am gopïau blaenoriaethol o sgriptiau arholiad i gefnogi ymholiadau am ganlyniadau	16 Mawrth 2012	24 Awst 2012
Dyddiad olaf am ymholiadau Gwasanaeth 2 Blaenoriaethol	Amherthnasol	24 Awst 2012
Dyddiad olaf ar gyfer ymholiadau eraill megis Canlyniadau Coll ac Anghyflawn	17 Ebrill 2012	20 Medi 2012
Dyddiad olaf i wneud cais am gyfnewid hwyr	17 Ebrill 2012	20 Medi 2012
Dyddiad olaf i wneud cais am ddychwelyd y sgriptiau arholiad gwreiddiol i gefnogi addysgu a dysgu	28 Ebrill 2012	4 Hydref 2012
Cyhoeddi tystysgrifau	erbyn 31 Mai 2012	erbyn 31 Hydref 2012

Graddfeydd Marciau Unffurf

CANLYNIADAU UNED TAG

Y marciau unffurf lleiaf sydd eu hangen ar gyfer pob cywerthydd gradd:

Cywerthydd gradd uned	A	B	C	D	E
lle mae'r marc unffurf mwyaf yn 60	48	42	36	30	24
lle mae'r marc unffurf mwyaf yn 78	62	55	47	39	31
lle mae'r marc unffurf mwyaf yn 80	64	56	48	40	32
lle mae'r marc unffurf mwyaf yn 90	72	63	54	45	36
lle mae'r marc unffurf mwyaf yn 100	80	70	60	50	40
lle mae'r marc unffurf mwyaf yn 105	84	74	63	53	42
lle mae'r marc unffurf mwyaf yn 110	88	77	66	55	44
lle mae'r marc unffurf mwyaf yn 111	89	78	67	56	44
lle mae'r marc unffurf mwyaf yn 120	96	84	72	60	48
lle mae'r marc unffurf mwyaf yn 140	112	98	84	70	56
lle mae'r marc unffurf mwyaf yn 200	160	140	120	100	80
lle mae'r marc unffurf mwyaf yn 300	240	210	180	150	120

GRADDAU CYMHWYSTER TAG

Y marc unffurf mwyaf ar gyfer y cymhwyster a'r marc unffurf lleiaf sydd ei angen ar gyfer pob gradd:

Gradd cymhwyster		A	B	C	D	E
TAG Uwch Gyfrannol (UG) lle mae'r marc unffurf mwyaf yn 100		80	70	60	50	40
TAG Uwch Gyfrannol (UG) lle mae'r marc unffurf mwyaf yn 200		160	140	120	100	80
TAG Uwch Gyfrannol (UG) lle mae'r marc unffurf mwyaf yn 300		240	210	180	150	120
Gradd cymhwyster	**A***	**A**	**B**	**C**	**D**	**E**
TAG Uwch (safon Uwch) lle mae'r marc unffurf mwyaf yn 200	Gweler y nodyn	160	140	120	100	80
TAG Uwch (safon Uwch) lle mae'r marc unffurf mwyaf yn 400	Gweler y nodyn	320	280	240	200	160
TAG Uwch (safon Uwch) lle mae'r marc unffurf mwyaf yn 600	Gweler y nodyn	480	420	360	300	240

Noder

Y rheol gyffredinol ar gyfer dyfarnu A* yw:

- gradd A gyffredinol yn y safon Uwch a
- 90% o'r marc unffurf mwyaf ar agregiad yr unedau U2

Y rheol mewn Mathemateg yw:

- gradd A gyffredinol yn y safon Uwch a
- 90% o'r marc unffurf mwyaf ar agregiad yr Unedau C3 a C4

Y rheol mewn Mathemateg Bellach yw:

- gradd A gyffredinol yn y safon Uwch a
